

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion o'r cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol,
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach
ddydd Mawrth 27 Mehefin 2017 am 5:00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. S. Fox – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

S. A. Bradwick	S. Powderhill
A. Cox	E. Webster
M. Diamond	D. Williams
W. Lewis	T. Williams
S. Morgans	

Swyddogion oedd yn bresennol:

Mr P. J. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Mr P. Nicholls – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Ymglyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymuned a Phlant
Mr G. Black – Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr L. Morgan – Rheolwr Cynorthwyol Materion Trwyddedu
Mr R. Waters – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Priffyrdd a
Gofal y Strydoedd

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol
L. Jones.

2. DATGAN BUDDIANT

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r Cod Ymddygiad, dyma'r datganiadau o
fuddiant personol a gafodd eu gwneud ynglŷn â'r agenda:-

1. Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill ynglŷn ag agendwm 6
(1) – Ceisiadau am Drwyddedu a/neu Gofrestru – 'Rydw i'n adnabod
yr ymgeisydd – dyma hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu a bydda i'n
ymneilltuo o'r cyfarfod tan ddiwedd y cyfarfod'.

(Cafodd tri datganiad ychwanegol eu gwneud yn nes ymlaen yn y cyfarfod; mae cofnodion rhif 11(1) a (3) yn cyfeirio at y rhain).

3. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD – I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

4. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau newydd hynny o'r Pwyllgor Trwyddedu.

5. COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gafodd ei gynnal ar 7 Mawrth 2017.

6. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 27 Chwefror 2017 tan 11 Mehefin 2017.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

7. GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth reoli busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – TRWYDDEDAU GYRRU CERBYD HACNI / CERBYD HURIO PREIFAT – CEISIADAU AC ADNEWYDDU

Yn ei adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd y manylion am chwe chais – pedwar cais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat, ac roedd dau gais ger bron y Pwyllgor am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Cytunwyd ar drafod yr agenda mewn trefn wahanol i ganiatáu i'r ymgeiswyr hynny, nad oedden nhw'n bresennol ar y pryd, gael digon o amser i gyrraedd.

(**Noder:** Ac yntau wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu yn yr agendwm nesaf (cofnod rhif 2(1) uchod), ymneilltuodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill o'r cyfarfod ar yr adeg yma.)

1. Yn unol â'r cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 7 Mawrth 2017 (cofnod rhif 59(5)), pan benderfynodd y Pwyllgor ohirio penderfynu ar y cais gan Mr SJS o Bontypridd, ar gais y Trwyddedai, cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad ar adolygu rhoi Trwydded Cerbyd Hacni.

PENDERFYNWYD rhoi'r drwydded â rhybudd o ran gweithgarwch yn y dyfodol; a gofyniad i gael Tystysgrif BTEC Lefel 2 mewn cludo teithwyr drwy hurio am wobr, o fewn cyfnod o ddau fis.

(**Noder:** Cyn i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

2. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr ZH o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Roedd unigolyn yn bresennol â'r Ymgeisydd, a chyflwynodd ei hun fel cyfaill i gefnogi Mr ZH o Gaerdydd.

PENDERFYNODD y Pwyllgor wrthod cais Mr ZH o Gaerdydd oherwydd roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn nad oedd yr Ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

3. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr GAP o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau iddyn nhw gael trafod ei gais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Roedd unigolyn yn bresennol â Mr GAP, a chyflwynodd ei hun fel cynrychiolydd yr Ymgeisydd.

Ar ôl trafod yr wybodaeth ger eu bron, yn ogystal â'r wybodaeth ategol a gafodd ei rhoi gan yr ymgeisydd yn ystod y cyfarfod, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais gan Mr GAP o Gaerdydd oherwydd roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn nad oedd yr Ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

4. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr CQAA o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau iddyn nhw gael trafod ei gais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

PENDERFYNODD y Pwyllgor wrthod cais Mr CQAA o Gaerdydd oherwydd roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn nad oedd yr Ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

5. Cafodd ei gyhoeddi bod Mr MAM o Gaerdydd wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor Trwyddedu na fyddai'n bresennol oherwydd ymrwymiad blaenorol. **PENDERFYNWYD**, felly, ohirio'r penderfyniad i'r cyfarfod priodol nesaf er mwyn rhoi cyfle i'r Trwyddedai gyflwyno ei hun ger bron y Pwyllgor. Serch hynny, byddai methu â bod yn bresennol am yr ail dro yn arwain at benderfynu'r adolygiad yn ei absenoldeb.
6. Meddai'r Cadeirydd nad oedd Mr RL o'r Pentre yn bresennol ar yr ail gyfle i annerch y Pwyllgor i gefnogi ei adolygiad. **PENDERFYNODD** yr Aelodau, felly, wrthod y drwydded oherwydd roedden nhw o'r farn nad oedd yn berson addas a phriodol i gael Trwydded o'r fath ac o gofio'r faith yr oedd wedi methu â chyflwyno ei hun i'r Aelodau am yr ail dro iddyn nhw gael cyfle i benderfynu'r cais ger eu bron.

9. CRYNODEB O FATERION GORFODI

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 24 Chwefror 2017 tan 16 Mehefin 2017. Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys, a oedd wedi ei roi er gwybodaeth yn unig.

10. CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd grynodedb o Drwyddedau a/neu Gofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaethau Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 27 Mawrth 2017 tan 11 Mehefin 2017 a **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

11. ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG

Yn ei adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd y manylion am dri chais am gliriad ar gyfer personél Cludiant dan Gontract ar gludiant ysgolion, gwasanaethau cymuned a chontractau cysylltiedig ar gyfer cludiant.

(**Noder:** Wrth groesawu Mr JBW o'r Pentre, a'i gyflogwr, rhoddodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill a'r Cyngorydd Bwrdeistref

Sirol E. Webster wybod i'r Pwyllgor roedden nhw eisiau datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu oherwydd roedden nhw'n adnabod yr ymgeisydd a'r person a oedd yn bresennol. Yn unol â hynny, ymneilltuodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill a'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol E. Webster o'r cyfarfod tan ddiwedd trafod y cais.)

- 1) Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr JBW o'r Pentre ei groesawu gan yr Aelodau o'r Pwyllgor iddyn nhw gael trafod ei apêl ynglŷn â Phersonél Cludiant dan Gontract. Roedd Mr JBW o'r Pentre, a'i gyflogwr, yn bresennol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNWYD** gwrthod yr apêl a chadarnhau bod Mr JBW o'r Pentre yn anaddas i fod yn Bersonél Cludiant dan Gontract.

- 2) Cafodd Mr SJP o'r Porth ei groesawu gan yr Aelodau o'r Pwyllgor iddyn nhw gael trafod ei apêl ynglŷn â Phersonél Cludiant dan Gontract.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNWYD** caniatáu'r apêl a rhoi cliriad i Mr SJP o'r Porth gael bod yn Bersonél Cludiant dan Gontract.

- 3) Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr JLR o Llynrhedynog ei groesawu gan yr Aelodau o'r Pwyllgor iddyn nhw gael trafod ei apêl ynglŷn â Phersonél Cludiant dan Gontract. Roedd Mr JLR, a'i dad, yn bresennol.

(**Noder:** Wrth groesawu Mr JLR o Llynrhedynog, rhoddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Morgans wybod i'r Pwyllgor roedd hi eisiau datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu oherwydd roedd hi'n adnabod y teulu. Yn unol â hynny, ymneilltuodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Morgans o'r cyfarfod tan ddiwedd trafod y cais).

PENDERFYNWYD gwrthod yr apêl a chadarnhau bod Mr JLR o Llynrhedynog yn anaddas i fod yn Bersonél Cludiant dan Gontract.

A. S. Fox
Cadeirydd

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50pm.